

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 9 Hydref, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Ball, I. Buckley, A.M. Collins, M. Cowpe, E.J. Goodjohn, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd W.A. Hennessy a G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr C.A. Cave a R. Fisher

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. DIWEDDARIAD CHWARAEON A CHWARAE 2022/23 (CAT) –

ARGYMHELLWYD -

- (1) Cymeradwyo a nodi'r wybodaeth yn Adroddiad Diweddarau Chwaraeon a Chwarae 2022/23.
- (2) Bod Adroddiad Blynyddol pellach ar weithgareddau Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae'r Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2024.
- (3) Bod Adroddiad Diweddarau Blynyddol Chwaraeon a Chwarae 2022/23 yn cael ei gyfeirio at y Cabinet i'w ystyried.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad ar yr arfer da presennol sy'n cael ei gyflawni gan Dîm Chwaraeon a Chwarae'r Cyngor.
- (2) Hysbysu'r pwyllgor yn flynyddol am waith Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae'r Cyngor.
- (3) Sicrhau bod y Cabinet yn cael golwg ar yr adroddiad cadarnhaol a'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan Dîm Chwaraeon a Chwarae'r Cyngor.

EITEM AGENDA 5. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y TÎM DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (CGC) –

ARGYMHELLWYD -

- (1) Y dylid nodi goblygiadau parhaus dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer o ran trefniadau ar gyfer Diogelu oedolion nad ydynt yn gallu cydsynio i'w hanghenion gofal a llety.
- (2) Y dylid nodi'r gweithredu arfaethedig o'r Trefniadau Diogelu Rhyddid a'r codau ymarfer cysylltiedig, ar ôl cael eu gohirio am gyfnod amhenodol gan Lywodraeth Cymru.
- (3) Bod yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) O ystyried cynnwys yr adroddiad ar oblygiadau parhaus dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer o ran trefniadau ar gyfer Diogelu oedolion nad ydynt yn gallu cydsynio i'w trefniadau llety, gofal a chymorth a'r risg i'r Cyngor o her gyfreithiol lle ni chaiff amserlenni statudol eu bodloni.
- (2) Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn ystyried y cynllunio ar gyfer y Trefniadau Diogelu Rhyddid i'r dyfodol ac yn newid hyn a fydd yn dod â chyfrifoldebau'r Cyngor i mewn i unigolion sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid oherwydd eu hanghenion gofal a chymorth.
- (3) Diweddarau Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y cynnydd a wnaed gyda'r ôl-groniad o geisiadau a'r newidiadau deddfwriaethol disgwylidig.

EITEM AGENDA 6. TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI CHWARTER
1AF AC 2IL 2023/24 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y
PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2023/24 (CAC) -

ARGYMHELLWYD -

- (1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.
- (2) Cymeradwyo'r Rhaglen Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddaru ar gyfer 2023/24, fel y'i hatodwyd yn Atodiad C yr adroddiad, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad er mwyn parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.